# RHYBUDD O GYFARFOD

*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*

***Jonathan Cawley***
***Prif Weithredwr***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***
***Penrhyndeudraeth***
***Gwynedd LL48 6LF***
***Ffôn: (01766) 770274***
***E-bost: parc@eryri.llyw.cymru***

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 5 Chwefror 2025 |
| **Amser:** | 10.00 y.b. |
| **Man Cyfarfod:** | Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom |

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***
*Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths,*
*Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen,*
*Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts,*
*Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
*Y Cynghorwyr: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru***
*Brian Angell, Tim Jones,*
*Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson.*

# R H A G L E N

| | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd** | |
| 2. | **Diweddariad Corfforaethol**<br>Derbyn diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr | |
| 3. | **Hawl i'r Cyhoedd Holi**<br>Mae'r Awdurdod wedi clustnodi hyd at 20 munud ar ddechrau ei gyfarfod i roi cyfle i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau penodol sy'n ymwneud â gwaith yr Awdurdod (ag eithrio ceisiadau cynllunio) sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwrpasau'r Parc.<br>Rhaid cyflwyno'r cwestiynau'n ysgrifenedig (drwy'r post neu e-bost) i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Chorfforaethol o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfod. | |
| 4. | **Datgan Diddordeb**<br>Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb yn unrhyw eitem gan aelod neu swyddog. | |
| 5. | **Cofnodion**<br>Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2024 fel rhai cywir. (Copi yma) | 4 - 12 |
| 6. | **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion** | |
| 7. | **Taflen Weithredu**<br>Cyflwyno'r Daflen Weithredu, er gwybodaeth a phenderfyniad (Copi yma) | 13 |
| 8. | **Ethol Aelod newydd i'r Cyd Weithgor Lleol**<br>Cyflwyniad llafar gan y Dirprwy Brif Weithredwr | |
| 9. | **Ffermio Bro**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth (Copi yma) | 14 - 17 |
| 10. | **Cyllideb yr Awdurdod a'r Ardollau ar Awdurdodau Cyfansoddol am 2025/2026**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma) | 18 - 28 |
| 11. | **Strategaeth Cyfalaf 2025/2026**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma) | 29 - 36 |
| 12. | **Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau**<br>Cyflwyno cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2024 er gwybodaeth. (Copi yma) | 37 - 40 |

13. **Adroddiad Gweithgor Aelodau** 41 - 44
Cyflwyno adroddiad cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2024. (Copi yma)

14. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**
Derbyn adroddiadau llafar gan Aelodau am unrhyw gyfarfodydd sefydliadau eraill y buont ynddynt yn ddiweddar fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

**COFNODION**
**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
DYDD MERCHER 13eg o DACHWEDD 2024
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

***YN BRESENNOL:***

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Edgar Wyn Owen (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Jo Nuttall, Nia Owen;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Brian Angell, Tim Jones, Naomi Luhde-Thompson, Delyth Lloyd;

**Swyddogion**
G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Ioan Gwilym, Eifion Jones. (Ymunodd Nia Murray ac Edward Jones ag ail rhan y cyfarfod.)

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Nia Owen i'w chyfarfod cyntaf fel Aelod o Awdurdod y Parc. Nododd mai Nia Owen oedd olynydd y Cynghorydd Dilwyn Owain Roberts a oedd wedi ymddiswyddo o fod yn Aelod o Awdurdod y Parc ar ei ddyrchafiad i Gabinet Cyngor Bwrdeisdref Sirol Conwy. Awgrymodd y dylai'r Parc anfon llythyr swyddogol o ddiolch ato.

2. **Diweddariad Corfforaethol**

Derbyniwyd diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr Dros Dro.

Adroddodd:

- fod Cynhadledd COPA1, a gynhaliwyd ar 24ain o Fedi, wedi bod yn llwyddiant mawr. Daeth 55 o ddisgyblion ysgol iddi. Trafodwyd nifer o syniadau ynglŷn â dod i'r afael â'r argyfwng sbwriel ar yr Wyddfa. Daeth tri syniad i'r brig, ac roedd grantiau o £1500 ar gael i wireddu'r syniadau yna. Llongyfarchwyd y staff am lwyddiant y gynhadledd.
- ei fod ef, y Cynghorydd Edgar Owen (Cadeirydd yr Awdurdod), y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd (Is-gadeirydd yr Awdurdod), a Delyth Lloyd wedi mynychu Cynhadledd National Parks UK yn ddiweddar. Roeddynt yn dathlu 75 o flynyddoedd o Dirweddau i Bawb. Amlygwyd y rhwystrau y profai rhai pobl, er enghraifft pobl ag anableddau, rhag gallu mwynhau tirweddau cefn

gwlad.

- ar broblem parcio yn y Parc a bod:
  - cyfres o gyfarfodydd swyddogion wedi'i chynnal i drafod datrysiadau i'r broblem parcio, yn benodol yn Nant Gwynant, Ogwen, blaendraeth Llyn Tegid a Llangywer;
  - yr Awdurdod wedi derbyn cyngor cyfreithiol ynglŷn â'r mater a bod hyn wedi gwneud opsiynau'r Awdurdod yn gliriach;
  - cyfnod secondiad Jason Diamond o Heddlu Gogledd Cymru bellach wedi dod i ben a'i fod yn wedi bod yn llwyddiannus iawn. Diolchodd iddo am ei gyfraniad dros y cyfnod hwnnw.
- fod Gweithdy Partneriaid a Rhanddeiliaid yr Wyddfa wedi ei gynnal yn Llanberis ym mis Hydref er mwyn adeiladu ar y gwaith arbennig yr oedd eisoes yn ei wneud, ac i ddechrau cynllunio at y pum mlynedd nesaf.
- nad oedd wedi gallu mynychu Seminar Aelodau Cymru o'r Parciau Cenedlaethol a gynhaliwyd yn Sir Benfro ar 6-7 o Dachwedd oherwydd salwch, ond diolchodd i bawb a aeth ac yr oedd yn deall ei bod yn gynhadledd dda.

Cafwyd trafodaeth ar broblem parcio ceir yn y Parc a chynigiwyd rai sylwadau ac awgrymiadau gan yr Aelodau. Cynigiodd y Prif Weithredwr Dros Dro baratoi papur ar y mater i'w gyflwyno yng nghyfarfod mis Mawrth y Gweithgor Aelodau (os nad oedd cyfle i'w gyflwyno'n gynt).

3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiwn gan y cyhoedd.

4. **Datgan Diddordeb**

Datganodd y Prif Weithredwr Dros Dro ddiddordeb yn eitemau 22 (Eithrio Adroddiad: Strwythur Arfaethedig Y Tîm Rheoli) a 24 (Strwythur Arfaethedig Y Tîm Rheoli) gan fod yr adroddiadau o bosib yn effeithio ar ei swydd.

5. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 11$^{eg}$ o Fedi 2024 ac ar 2$^{il}$ o Hydref, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

6. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**

Ni chodwyd unrhyw fater o'r cofnodion.

7. **Taflen Weithredu**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y Daflen Weithredu.

***Argymhellwyd*****:** – y dylai'r Daflen Weithredu aros fel y'i cyflwynwyd

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad**.**

8. **Adroddiad Proffil Risg yr Awdurdod**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Adroddiad Proffil Risg yr Awdurdod.

Dywedodd:

- fod y risgiau roedd yr Awdurdod yn ei hwynebu wedi'u rhannu'n dri chategori, sef Blaenoriaethau Uchel, Blaenoriaethau Canolig a Blaenoriaethau Isel;
- fod 19 risg wedi eu hadnabod ar y Proffil: 2 fel risgiau Uchel, 16 fel risgiau Canolig ac 1 yn risg Isel;
- fod 3 risg newydd wedi eu cynnwys ar Gofrestr Risg yr Awdurdod:
    - Gwydnwch y Tîm Rheoli (risg 17)
    - Y Cynnig i Gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4: Risg o Adolygiad Barnwrol (risg 18)
    - Y Cynnig i Gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4: Capasiti annigonol i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn llwyth gwaith (risg 19)
- fod categori Risg 18 wedi ei gofnodi'n anghywir yn y rhaglen: dylai fod yn wyrdd (categori risg isel) yn hytrach nag yn ambr (categori risg canolig).

***Argymhellwyd*: –** bod yr Awdurdod yn nodi cynnwys yr adroddiad.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad**.**

9. **Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol Parciau Cenedlaethol Cymru**
Cyflwynwyd Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol Parciau Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd ar y 3ydd o Fehefin 2024.

***Nodwyd*** y Cofnodion.

10. **Y Pwyllgor Safonau**
Cyflwynodd y Prif Weithredwr Dros Dro argymhelliad i'r Aelodau benodi dau Aelod i'r Pwyllgor Safonau a chytuno ar y broses i benodi Aelod Annibynnol newydd i'r Pwyllgor.

Dywedodd:

- fod tymor cadeirydd presennol y Pwyllgor, Mrs Sharon Warnes, bellach wedi dod i ben a bod yn rhaid i'r Awdurdod benodi o'r newydd drwy hysbysebu'r swydd yn unol â'r rheoliadau a sefydlu panel cyfweld;
- nad oedd y Cynghorydd Dilwyn Roberts a Mrs Sarah Hattle bellach yn aelodau o'r Awdurdod a bod gofyn enwebiadau yn y cyfarfod i benodi dau aelod ar gyfer y Pwyllgor Safonau, y naill o gefndir Awdurdod Lleol a'r llall yn aelod o benodiad Llywodraeth Cymru.

***Argymhellwyd:***

(i) Bod yr Awdurdod yn penodi dau aelod o'r Awdurdod fel aelodau o'r Pwyllgor Safonau i barhau nes bod yr aelod hwnnw'n peidio â bod yn aelod o'r Awdurdod.

(ii) Mewn perthynas â swydd wag Aelod Annibynnol y Pwyllgor Safonau bod yr Awdurdod yn mynd ati i hysbysebu'r swydd am gyfnod o bum mlynedd ac yn sefydlu Panel Cyfweld o bump yn unol â'r Rheoliadau i gynnwys un Aelod Lleyg i'w ddewis gan y Swyddog Monitro.

***Penderfynwyd*:**

(i) Penodi Naomi Luhde-Thompson a'r Cynghorydd Nia Owen fel aelodau newydd o'r Pwyllgor Safonau

(ii) Derbyn yr Argymhelliad.

11. **Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Dywedodd:

- fod y Panel wedi penderfynu y dylid cynyddu cyflogau yn unol â chwyddiant;
- nad oedd unrhyw newidiadau i'r costau teithio;
- nad oedd y cyfraddau taladwy i Aelodau Annibynnol Pwyllgor Safonau'r Awdurdod wedi newid;
- y byddai'r adroddiad, pe byddai'n cael ei gyhoeddi heb newidiadau, yn creu mân oblygiadau o ran adnoddau a fyddai'n golygu bod angen cynyddu'r cyllidebau presennol, ond ni fyddai'n gwneud gwahaniaeth mawr i'r her ariannol mae'r Awdurdod yn ei wynebu.

***Argymhellwyd:*** – trafod yr Adroddiad Blynyddol drafft a phenderfynu ar ymateb yr Awdurdod.

***Penderfynwyd*** derbyn yr adroddiad a'i gynigion fel ag yr oedd.

12. **Adborth i'r Diwrnod Agored; Sylwadau'r Cyhoedd ar Blas Tan y Bwlch**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyfathrebu adroddiad ar yr adborth a gasglwyd yn ystod y sesiwn galw heibio ddiweddar ar werthiant posibl Plas Tan y Bwlch.

Dywedodd fod:

- rhai o'r ymatebion yn dweud y gallai'r cyfathrebu am waredu Plas Tan y Bwlch wedi bod yn well nag y bu;
- 180 o aelodau o'r cyhoedd wedi dod i'r sesiwn galw heibio a'i fod wedi bod yn gyfle da i'r cyhoedd mynegi eu pryderon ac i'r staff egluro'r sefyllfa'n well;
- ymateb y gymuned i'r posibilrwydd o werthu Plas Tan y Bwlch yn dangos fod cadw mynediad cyhoeddus i'r coetiroedd a Llyn Mair yn flaenoriaeth gref, a mynediad i'r tŷ ei hun ar y cyfan yn eilradd er bod cadw'r tŷ mewn perchnogaeth gyhoeddus yn bwysig iawn i rhai.

***Argymhellwyd*** **–** nodi'r adroddiad at ddibenion gwybodaeth er mwyn galluogi'r Awdurdod i gael dealltwriaeth lawn o'r materion a oedd yn codi o'r cyfathrebu â'r cyhoedd cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ynglŷn â dyfodol Plas Tan y Bwlch.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad**.**

13. **Adolygiad o ddefnyddio *Eryri* ac *Yr Wyddfa* yn unig yng nghyfathrebu'r Awdurdod**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyfathrebu adroddiad yn adolygu dwy flynedd o ddefnydd yr Awdurdod o'r enwau *Eryri* ac *Yr Wyddfa* yn unig.

Nododd fod:

- canlyniadau cadarnhaol yn ogystal â heriau ac ardaloedd i'w gwella;
- sentiment pobl at ddefnyddio'r geiriau Cymraeg yn newid gyda phapurau newydd a'r cyfryngau yn Lloegr yn defnyddio'r geiriau Cymraeg, a phartneriaid y Parc bellach yn defnyddio'r geiriau Cymraeg yn unig;
- dryswch yn parhau rhwng enw'r Parc a'r mynydd;
- sylwadau negyddol yn parhau ar y cyfryngau cymdeithasol;
- rhai wedi gofyn am gefnogaeth ar sut i ynganu'r geiriau.

***Argymhellwyd*****:** – defnyddio *Eryri* a'r *Wyddfa* yn unig ym mhob cyfathrebu o eiddo'r Awdurdod nad yw'n cael ei gyfri'n statudol neu gyfreithiol.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad**.**

14. **Logo'r Awdurdod**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyfathrebu.

Esboniodd fod yr Awdurdod wedi penderfynu defnyddio'r enwau "Eryri" ac "Yr Wyddfa" yn unig ym mhob cyfathrebu o eiddo'r Awdurdod. Dywedodd fod diweddaru logo swyddogol yr Awdurdod yn gam hanfodol i adlewyrchu'r newid defnydd a brandio yma, a bod parhau i gael logo oedd yn cynnwys y term "Snowdonia" yn anghyson â'r cyfathrebu.

Cyflwynwyd logos drafft.

***Argymhellwyd:*** – bod yr Awdurdod yn

(i) Cymeradwyo addasu logo'r Awdurdod i ddefnyddio 'Eryri' yn unig.

(ii) Awdurdodi gweithredu'r newidiadau dros amser pan fo'r angen er mwyn hwyluso pwysau gwaith ar staff ac adnoddau

***Penderfynwyd*****:**

(i) mabwysiadu'r logo isod:

(ii) derbyn yr Argymhelliad

15. **Adroddiad Blynyddol Prosiectau Enwau Lleoedd**

Yn absenoldeb y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol cyflwynwyd adroddiad ar y Prosiectau Enwau Lleoedd gan y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro.

Dywedodd:

- mai nod y prosiect oedd cofnodi cynifer â phosib o enwau tirweddol y Parc Cenedlaethol, o enwau caeau i enwau pyllau afon;
- fod y rhestr o enwau safonol ar lynnoedd Eryri wedi ei mabwysiadu gan APCE a Phanel Safoni Comisiynydd y Gymraeg eisoes ac ers hynny, bu gwaith safoni enwau rhaeadrau a bylchau Eryri ar waith;
- mai enwau tirweddol Cymraeg yn unig a gâi eu harddel, gan gydnabod ar yr un pryd bod rhai enwau mewn ieithoedd eraill yn bodoli yn Eryri;
- fod pump gweithdy cofnodi enwau wedi eu cynnal eleni a bod tri gweithdy arall wedi'u trefnu ar gyfer 2024/25. Roedd ymateb y cymunedau i'r gwaith wedi bod yn wresog.

***Argymhellwyd:*** – bod yr Aelodau yn derbyn yr adroddiad er gwybodaeth, darparu adborth ar gynnydd y gwaith ac unrhyw syniadau ar gyfer prosiectau pellach.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad**.**

16. **Diweddariad Ar Y Gyllideb 2024/25**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn crynhoi'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig ar gyfer 2024/25 gyda newidiadau a oedd yn adlewyrchu'r cyfnod o ddechrau'r flwyddyn ariannol hyd at y 30ain o Fedi 2024.

Rhoddodd ddiweddariad ar Gynllun Archwiliad 2022/23 hefyd gan adrodd fod yr Awdurdod wrthi'n gweithio gyda'r Archwilwyr i baratoi'r cynllun. Dywedodd mai'r Awdurdod oedd yn cymeradwyo'r cynllun fel arfer ond, gan nad oedd y cynllun yn barod ar gyfer y cyfarfod presennol, yr oedd am argymell fod yr Archwilwyr yn ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

***Argymhellwyd:*** – derbyn yr adroddiad a nodi'r sefyllfa ariannol bresennol ar gyfer 2024/25, a bod yr Archwilwyr yn cyflwyno adroddiad ar Gynllun Archwiliad 2023/23 yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad**.**

17. **Cyllideb Refeniw Sylfaenol 2025/26**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad yn cyflwyno manylion am gyllideb ddrafft 2025/26 a dangos yr amcan gost o barhau'r gwasanaethau cyfredol, a chyllido costau a gymeradwywyd ar gyfer y dyfodol.

***Argymhellwyd:*** – nodi'r gyllideb sylfaenol a gynlluniwyd ar gyfer 2025/26 fel yr amlinellwyd.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad**.**

18. **Adroddiadau y Gweithgor Aelodau**

Cyflwynwyd adroddiadau'r Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 22ain o Fai 2024 ac ar 26ain o Fehefin 2024.

***Penderfynwyd*** nodi'r adroddiadau.

19. **Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar yr 11eg o Fedi 2024 er gwybodaeth.

***Penderfynwyd*** nodi'r cofnodion.

20. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw Aelod wedi mynychu cyfarfod allanol fel cynrychiolydd yr Awdurdod. Adroddodd Tim Jones ei fod wedi mynychu cyfarfod Partneriaeth Parciau Cenedlaethol Prydain. Adroddodd hefyd ei fod wedi methu mynychu Cynhadledd Europarc, a oedd yn cael ei gynnal yn rhithiol, am nad oedd wedi derbyn manylion cysylltu a mynediad mewn pryd.

21. **Eithrio Adroddiad: Plas Tan y Bwlch – Diweddariad ac Opsiynau**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Dros Dro argymhelliad i ofyn i'r Awdurdod gymeradwyo eithrio'r adroddiad, "Trafodaeth ar Ddyfodol Plas Tan y Bwlch" o dan Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Esboniodd mai'r eithriadau perthnasol i'r adroddiad oedd ei fod yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn:

- o Berthnasol i unigolyn penodol
- o Debygol o ddatgelu pwy oedd yr unigolyn
- o Ymwneud â materion ariannol neu fusnes rhywun penodol

Nododd fod bod yn agored a thryloyw yn ffactorau o blaid datgelu.

***Argymhellwyd:*** – bod yr Awdurdod yn eithrio’r adroddiad, “Plas Tan y Bwlch – Diweddariad ac Opsiynau”.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad**.**

22. **Eithrio Adroddiad: Strwythur Arfaethedig Y Tîm Rheoli**

Gadawodd y Prif Weithredwr Dros Dro yr ystafell am yr eitem hwn.

Cyflwynodd y Darpar Brif Weithredwr argymhelliad i ofyn i’r Awdurod gymeradwyo eithrio’r adroddiad, “Strwythur Arfaethedig Y Tîm Rheoli” o dan Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Esboniodd mai’r eithriadau perthnasol i’r adroddiad oedd ei fod yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn:

- o Berthnasol i unigolyn penodol
- o Debygol o ddatgelu pwy oedd yr unigolyn
- o Ymwneud â materion ariannol neu fusnes rhywun penodol

Nododd nad oedd yna ffactorau o blaid datgelu.

***Argymhellwyd:*** – bod yr Awdurdod yn eithrio’r adroddiad, “Strwythur Arfaethedig Y Tîm Rheoli”.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad**.**

---

**RHAN 2**

23. **Plas Tan y Bwlch – Diweddariad ac Opsiynau**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Dros Dro adroddiad ar Ddiweddariad ac Opsiynau ar Ddyfodol Eiddo Plas Tan y Bwlch.

Adroddodd mai’r sefyllfa ddiweddaraf oedd bod:

- ➢ un cynnig o £1.2M am y cyfan wedi ei dderbyn
- ➢ 1 parti wedi cadarnhau diddordeb ac yn adolygu'r arolwg cyflwr; eu bod wedi nodi y byddai eu proses fewnol ar gyfer cael cymeradwyaeth gan Ymddiriedolwyr ar ôl dilyn proses diwydrwydd dyladwy yn cymryd ychydig fisoedd i'w gwblhau yn gynnar yn 2025 pan fyddai ganddynt gapasiti.
- ➢ pawb arall a oedd wedi dangos diddordeb hyd yma bellach wedi tynnu nôl.

Awgrymodd fod hyn oll yn cadarnhau fod y Plas wedi ei brisio’n gywir.

Adroddodd ymhellach:

- ➢ fod cwmni cymunedol wedi cyflwyno adroddiad a oedd yn nodi’n fras eu safbwynt hyd yma. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cynllun dwy flynedd posibl, a byddai gohirio penderfyniad gan yr Awdurdod tan Ebrill 25 yn galluogi’r cwmni i symud ymlaen – dylai canlyniad eu cais am grant fod yn wybyddus erbyn hynny. Byddai gohirio penderfyniad am fwy o amser ar hyn o bryd yn peri risg annerbyniol i’r Awdurdod;

- fod pedwar opsiwn o ran mynediad i'r cyhoedd i dir y Plas wedi gwerthiant; yr opsiwn i wahanu'r goedlan a'r llwybrau oddi wrth Plas a'r gerddi gan adael y sefyllfa gyda'r llwybrau fel mae'n sefyll heddiw oedd yr opsiwn hawsaf a'r gorau;
- fod yr Awdurdod wedi cysylltu â sefydliadau archifol ac amgueddfeydd lleol a chenedlaethol i drafod opsiynau ar gyfer rheoli casgliadau ym Mhlas Tan y Bwlch. Roedd yr holl opsiynau'n cael eu hystyried, gan gynnwys cadw rhan o'r casgliad o fewn yr Awdurdod, trosglwyddo rhannau ohono i sefydliadau achrededig eraill ac arddangos y casgliad yn y cyffiniau lleol;
- fod yr Awdurdod yn dal y rhydd-ddaliad ar gyfer Plas Tan y Bwlch. Roedd y teitl hwn wedi'i gofrestru gyda Chofrestrfa Tir EM ac nad oedd unrhyw faterion yn ymddangos ar y teitl hwn a fyddai'n ymddangos fel pe bai'n effeithio ar yr Awdurdod wrth waredu'r cyfan neu ran ohono;
- y byddai'r gost o gysgu'r Plas yn sylweddol is na'r gost fel ag yr oedd ar y pryd. Fodd bynnag, byddai cysgu'r eiddo yn debygol o fod yn amhoblogaidd yn lleol. Byddai hefyd yn arwain yn anochel at risg uwch o fandaliaeth a lladrad, ac na ellid lliniaru'r risg hon ond yn rhannol trwy ddarparu mwy o ddiogelwch. Gallai'r gost ariannol i'r Awdurdod fod yn sylweddol pe bai y math hwn o beth yn digwydd. Byddai hefyd yn arwain at ddifrod sylweddol i enw da yr Awdurdod. Roedd felly'n ffafrio cadw'r Plas yn agored fel ag y mae ar hyn o bryd am y tro.

Yn dilyn trafodaeth lawn cafwyd yr argymhelliad canlynol.

***Argymhellwyd*** – bod yr Awdurdod:

(i) yn diddymu'n ffurfiol y penderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod ynghylch Plas Tan y Bwlch dyddiedig 11 Medi 2024.

(ii) yn gohirio penderfyniad ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch hyd cyfarfod yr Awdurdod ar 30 Ebrill 2025.

(iii) yn parhau i gyfathrebu a thrafod gyda'r partïon hynny oedd wedi dangos diddordeb hyd yma gyda'r bwriad o gael gwell dealltwriaeth ynghylch eu diddordeb a'u gallu i brynu.

(iv) yn defnyddio'r amser hwn i gynnal asesiad o allu unrhyw brynwr posibl i ariannu gwaith atgyweirio a'r gwelliannau sy'n angenrheidiol i Blas Tan y Bwlch a pha bynnag gynlluniau fyddai ganddynt ar gyfer yr eiddo. Byddai'r asesiad hwn yn cynnwys asesiad o allu unrhyw Gwmni Cymunedol i fwrw ymlaen â'u cynlluniau a'r amserlen debygol dan sylw.

(v) yn y cyfamser, yn tynnu Plas Tan y Bwlch yn ffurfiol oddi ar y farchnad.

(vi) yn ystyried a dod i benderfyniad ar yr opsiwn a ffefrir er mwyn sicrhau mynediad cyhoeddus i'r coetiroedd a Llyn Mair trwy benderfyniad ffurfiol gan yr Awdurdod cyn gynted ag y bo modd.

(vii) os na fyddai trafodaethau y cyfeirir atynt yn (iii) yn llwyddo a/neu os byddai pob darpar brynwyr yn methu'r asesiad y cyfeirir ato yn (iv), yn ystyried pob opsiwn gan gynnwys gosod Plas Tan y Bwlch yn ôl ar y farchnad agored.

(viii) yn cynnal sesiwn galw heibio pellach ar ddyddiad i'w drefnu ond cyn cyfarfod yr Awdurdod ar 30 Ebrill 2025 er mwyn cyfleu penderfyniad yr Awdurdod a gwrando ar unrhyw bryderon heb eu datrys oedd gan gymunedau lleol a thu hwnt.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad**.**

24. **Strwythur Arfaethedig Y Tîm Rheoli**

Gadawodd y Prif Weithredwr Dros Dro yr ystafell ar gyfer yr eitem yma.

Cyflwynodd y Darpar Brif Weithredwr adroddiad ar Strwythur Arfaethedig Y Tîm Rheoli i ofyn am gymeradwyaeth yr Awdurdod i gynyddu'r niferoedd ar y Tîm Rheoli o 3 i 4.

Adroddodd:

- fod y Tîm Rheoli wedi cynnwys 4 aelod yn y gorffennol a torrwyd y rhif i 3 oherwydd toriadau cyllidebol;
- fod cryn bwysau ar dîm mor fach;
- ei fod yn ymwybodol y byddai darparu aelod ychwanegol i'r Tîm Rheoli'n golygu goblygiadau sylweddol o ran adnoddau, a oedd yn amlwg yn gwneud hwn yn benderfyniad anodd, ond teimlai rheidrwydd i gynnig er yr anawsterau;
- mai dyma oedd yr adeg iawn i ystyried y strwythur a'r cyfrifoldebau newydd ar gyfer y Tîm Rheoli.

***Argymhellwyd:*** –

(i) bod yr Awdurdod yn cefnogi'r cynnydd yn rhif Aelodau'r Tîm Rheoli o 3 i 4, a fyddai wedi'u strwythuro fel a ganlyn: Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a 2 Gyfarwyddwr arall. Byddai'r cymorth gweinyddol yn parhau fel ag yr oedd.

(ii) bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn parhau fel Dirprwy Brif Weithredwr am 6 mis ac y byddai'r rôl honno'n cael ei hadolygu gan y PW a Chadeirydd yr Awdurdod ar ôl y 6 mis.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad**.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 13:00**

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## CYFARFOD YR AWDURDOD – 08.02.2023

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 16. Telerau ac Amodau Gwasanaeth Uwch Dîm Rheoli APCE: Cyfarwyddwyr | - **bod gan y Panel, ynghyd â'r Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Swyddog Adran 151 newydd, y dasg a'r awdurdod i fynd i'r afael â materion posibl yn deillio o drosiant personél yn yr Uwch Dîm Rheoli.** | Angen cynnal cyfarfod i roi ystyriaeth i'r materion, dyddiad eto i'w gytuno. | NM | Wedi ei nodi ac yn monitro'r sefyllfa. | **NA** |

**EITEM RHIF 9**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 5 Chwefror 2025 |
| **TEITL** | **Ffermio Bro: Rhaglen Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig.** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth cadwraeth, coetir ac amaethyddiaeth |
| **PWRPAS** | Briffio Aelodau |

**CEFNDIR**

Mae Ffermio Bro (FfB) wedi'i datblygu gan swyddogion Llywodraeth Cymru (LlC) a swyddogion Tirweddau Dynodedig yn dilyn cyfnod hir o nodi'r angen am becynnau grant cyfalaf ar gyfer rheolwyr tir mewn tirweddau a chyflawni prosiectau cydweithredol Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy yn llwyddiannus.

Fe'i datblygwyd ar gefn rhaglen effeithiol iawn sydd ar gael yn Lloegr, sef Ffermio mewn Tirweddau Gwarchodedig (FfTG).

Y cynnig ar gyfer rhaglen Cymru yw bod yn rhaglen bontio ar gyfer rheolwyr tir o'r ddarpariaeth bresennol i haen Gydweithredol arfaethedig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy sydd wedi'i amserlennu i ddechrau yn 2029.

Ni fydd y rhaglen yng Nghymru mor gynhwysfawr â'r rhaglen gyfatebol yn Lloegr oherwydd cyfyngiadau ariannu. Daw cyllid o gyllideb Materion Gwledig LlC.

Anelir y prosiectau i gyflawni yn erbyn y pedwar amcan Rheoli Tir Cynaliadwy:

- Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill yn gynaliadwy
- Lliniaru ac addasu i newid hinsawdd
- Cynnal a gwella cadernid ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu
- Gwarchod a gwella adnoddau cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol (hybu mynediad ac ymgysylltiad cyhoeddus, cynnal a hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso ei defnydd)

Bydd ar gael ym mhob un o wyth tirwedd ddynodedig Cymru, gan ddechrau ym mis Ebrill 2025 dros gyfnod cyflawni o dair blynedd.

Mae darpariaeth cyllid blwyddyn un wedi'i nodi yn nhabl un, ac mae tabl dau yn cynnwys dadansoddiad refeniw, ac ar bapur nid oes darpariaeth ar gyfer nwyddau traul na gorbenion, ond mae swyddogion wedi codi'r pryder gyda swyddogion LlC.
Tabl 1: Dyraniadau cyfalaf ym mlwyddyn un.

| Tirwedd Ddynodedig | Arwynebedd mewn km ² | % o'r cyfanswm | Cyfalaf 25-26 £ | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdodau Parciau Cenedlaethol | | | 75% Llawr | Dyraniad yn ôl arwynebedd tir | Cyfanswm y dyraniad |
| Bannau Brycheiniog | 1,344 | 25.97 | | 146,122 | 275,966 |
| Eryri | 2,130 | 41.16 | | 231,589 | 361,433 |
| Arfordir Penfro | 629 | 12.15 | | 68,363 | 198,206 |
| Cyfanswm y Parciau Cenedlaethol | **4,103** | **79.3** | | **446,074** | **835,605** |
| Tirweddau Cenedlaethol | | | 45% Llawr | | |
| Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy | 389.26 | 7.52 | | 42,312 | 128,874 |
| Gŵyr | 188 | 3.63 | | 20,424 | 106,987 |
| Ynys Môn | 221 | 4.27 | | 24,025 | 110,588 |
| Llŷn | 155 | 3 | | 16,880 | 103,442 |
| Dyffryn Gwy (yng Nghymru) | 118.71 | 2.29 | | 12,885 | 99,447 |
| Cyfanswm Tirweddau Cenedlaethol | **1,071.97** | **20.7** | | **116,526** | **549,339** |
| Cyfanswm Tirweddau Dynodedig | **5,175** | **100** | | **562,600** | **1,384,943** |

Tabl 2. Dadansoddiad cyllid refeniw ar gyfer blwyddyn un.

| Tirwedd Ddynodedig | % y Dyraniad Cyfalaf | Adnodd refeniw 25-26 £ |
|---|---|---|
| Awdurdodau Parciau Cenedlaethol | | |
| Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 19.93% | £54,810 |
| Parc Cenedlaethol Eryri | 26.1% | £71,775 |
| Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | 14.31% | £39,355 |
| Tirweddau Cenedlaethol | | |
| Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy | 9.3% | £25,575 |
| Tirwedd Genedlaethol Gŵyr | 7.72% | £21,230 |
| Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn | 7.98% | £21,945 |
| Tirwedd Cenedlaethol Llŷn | 7.47% | £20,545 |
| Tirwedd Genedlaethol Dyffryn Gwy* | 7.18% | £19,745 |
| Cyfanswm Tirweddau Dynodedig | 100% | 275,000 |

Bydd y prosiect yn cael ei weinyddu gan swyddogion prosiect (wedi'i ariannu), mewn rhanbarthau gydag adnoddau staff cynyddol yn dod ar-lein ym mlynyddoedd dau a thri ynghyd â swyddog gweinyddol rhanbarthol. Rhagwelir y bydd dyraniadau cyfalaf yn fwy na dyblu erbyn blwyddyn dau a thri ar gyfer pob tirwedd.

Bydd opsiynau gwaith wedi'u seilio'n bennaf ar ddewislen o waith cyfalaf a chostau safonol, yn enwedig ym mlwyddyn un gydag opsiynau mwy pwrpasol ar gael ym mlynyddoedd dau a thri.

Bydd prosiectau mawr (y disgwylir iddynt fod dros drothwy £10K) yn cael eu cyfeirio at banel rhanbarthol i'w cymeradwyo. Disgwylir i bedwar panel sy'n cynnwys ffermwyr, undebau ffermio a chynrychiolaeth o Gyrff Anllywodraethol i gael eu ffurfio a gweithredu yn y Gogledd-orllewin, y De-orllewin a'r De-ddwyrain. Disgwylir mwy o fanylion am lywodraethu a strwythurau'r paneli a'u perthynas â mecanwaith Taliadau Gwledig Cymru.

Mae swyddogion wedi mynegi pryderon, - er mwyn cyflawni gwaith adfer natur a thirwedd uchelgeisiol, y dylid priodoli mwy o hyblygrwydd i opsiynau'r cynllun a chyfraddau talu. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn anneniadol i dirfeddianwyr oherwydd cytundebau beichus, hirfaith, cyfraddau talu annigonol i gyd-fynd â'r costau ac oedi sylweddol mewn taliadau sy'n arwain at gyfraddau ymuno isel, mae risg na fydd opsiynau ail-frandio yn unig yn cynyddu'r nifer sy'n manteisio arno ac y na fydd potensial enfawr y rhaglen yn cael ei wireddu.

Mae datblygu'r rhaglen yn caniatáu i Dirweddau Dynodedig (TDau) fynd ati i ddatblygu gallu a phrofiad staff cyn dyfodiad y rhaglen CFfC newydd gydag awydd cryf i fod yn rhan o'r broses o gyflwyno'r haen gydweithredol. Ni ellid gwneud hyn ar sail adnoddau presennol yr awdurdod.

## GOBLYGIADAU ADNODDAU

Mae'r prosiect yn dod ag arian refeniw i mewn ar gyfer cyflawni'r prosiect.

Ym mlwyddyn un, mae'r refeniw strwythuredig gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol ar gyfer 1.5 swyddog cyfwerth ag amser llawn yn Eryri, gyda'r disgwyliad i gyflawni ar AoHNE Llŷn a Môn.

Ym mlynyddoedd dau a thri bydd y cyllid refeniw yn codi i ddau swyddog yn Eryri, a swyddogion ychwanegol yn AoHNE Llŷn a Môn.

Teimla'r swyddogion y byddai'r llwyth gwaith y tu hwnt i gapasiti 1.5 CLlA (cyfwerth llawn amser) ym mlwyddyn un, gyda hyn mewn golwg mae swyddogion wedi penderfynu recriwtio 2 swyddog cyfwerth llawn amser ar gyfer Eryri ym mlwyddyn un. Bydd angen gwneud £21K ar gael i lenwi'r swydd ac fe ddaw hyn o gyllideb yr adran (arbediad o un aelod o staff ar y cyfnod sabothol), felly ni fydd cost ychwanegol net i'r Awdurdod.

Bydd cyllid refeniw ym mlynyddoedd dau a thri yn ddigon i dalu costau.

Mae'r trafodaethau gyda Swyddogion Llŷn a Môn wedi arwain at eu penderfyniad i gronni eu cyllid refeniw, ac ychwanegu at yr arian angenrheidiol o adnoddau eu Hawdurdodau, er mwyn gallu recriwtio trydydd swyddog a fydd yn cael ei recriwtio gydag Eryri, gyda chafeat y bydd un yn cyflawni yn yr AoHNE a gellir eu hadleoli ym mlwyddyn dau.

Mae'r penderfyniad hwn yn caniatáu ymgyrch recriwtio gryfach ac yn rhoi mwy o amser i swyddogion ddeall y prosiect a'r llwyth gwaith a darparu mecanwaith cyflawni hirach a mwy sefydlog.

Mae gan Lywodraeth Cymru ffrwd refeniw ychwanegol ym mlynyddoedd dau a thri ar gyfer cymorth gweinyddol rhanbarthol. Mae swyddogion wedi penderfynu parhau i recriwtio'r swyddog hwn ym mlwyddyn 1 gyda chyllid eto'n deillio o arbedion gan y swyddog ar gyfnod sabothol (dim cost net i'r Awdurdod) sy'n caniatáu mwy o allu i staff y prosiect gyflawni a chael swyddog gweinyddol a chyllid penodol i oruchwylio contractau, gwariant a hawliadau oherwydd maint a chymhlethdod y prosiect.

Bydd gan staff craidd a staff cyflawni prosiectau eraill sy'n gweithredu o fewn yr Awdurdod ran i'w chwarae wrth gefnogi'r swyddogion hyn yn ystod y cyfnod cyflawni a bydd goblygiadau llwyth gwaith i rai adrannau. Rydym yn dal i aros am gadarnhad ynghylch y gyllideb weithredu nwyddau traul a gorbenion.

O ran adnoddau ariannol, bydd y taliadau'n cael eu gwneud yn ôl-weithredol, bob chwarter, gan olygu amlygiad i risg ariannol bach, fodd bynnag mae risg isel o oedi gyda thaliadau neu ddiffyg talu gan fod y system yn seiliedig ar fecanwaith Taliadau Gwledig Cymru.

Mae gan swyddogion bryderon yn deillio o gyflawni prosiectau yn y gorffennol y gallai amlygiad i risg o beidio â thalu fod yn broblem ac mae trafodaethau ar y gweill gyda swyddogion i leihau'r amlygiad hwn.

**ARGYMHELLIAD**

Trafod y cynnwys a chymeradwyo bod y swyddogion yn parhau i ddatblygu'r rhaglen i'w defnyddio yn Eryri.

**EITEM RHIF 10**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 5 Chwefror 2025 |
| **TEITL** | **CYLLIDEB YR AWDURDOD A'R ARDOLLAU AR AWDURDODAU CYFANSODDOL AM 2025/26** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Swyddog Cyllid |
| **PWRPAS** | Cymeradwyo'r gyllideb refeniw a chyfalaf 2025/26 a'r ardollau ar awdurdodau cyfansoddol ar sail ffigwr dyraniad grant drafft Llywodraeth Cymru i'r Awdurdod. |

## 1. Crynodeb

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion cyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2025/26 yn seiliedig ar y setliad Grant Parc Cenedlaethol drafft ar gyfer 2025/26. Bydd y setliad grant terfynol yn cael ei gadarnhau ym Mawrth 2025, felly mae posibilrwydd o newid yn y cyfamser.

1.2 Ceir hefyd yn yr adroddiad hwn fanylion yr ardoll a ddosrennir rhwng y ddau awdurdod cyfansoddol, sef Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar sail y ffigwr grant dangosol.

1.3 Mae'r cyllidebau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ar sail cyllideb stond. Hynny yw, lefel gwariant anorfod i barhau gyda'r lefel presennol o wasanaethau yn 2025/26, heb unrhyw ychwanegiadau datblygol.

## 2. Cyllideb Refeniw 2025/26

2.1 Daeth gwybodaeth am y setliad drafft i law yn Rhagfyr 2024 ac cawsom wybod bydd cynydd o 5% i gyllid craidd yr Awdurdod. Gwir ystyr hyn yw cynydd o £206k yn y cyllid craidd, ac hefyd cynydd o £68k yn yr ardollau a godir ar yr Awdurdodau cyfansoddol. Er bod hyn yn newyddion i'w groesawu, mae'r Awdurdod yn parhau i wynebu sefyllfa ariannol heriol iawn, ac yn cychwyn y flwyddyn ariannol newydd mewn diffyg o £635,850.

2.2 Yn dilyn cyflwyno Cyllideb Refeniw Sylfaenol 2025/26 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 13eg o Dachwedd 2024, gwnaethpwyd addasiadau sydd wedi eu cyflwyno yn Atodiad 1.

2.3 Mae darpariaeth chwyddiant o 2% wedi ei osod ar gyfer cynnydd cyflogau yn 25/26 (£120,000). Mae graddfeydd chwyddiant yn parhau i ostwng o'i cymharu ar lefelau welwyd dros ddwy flynedd ddiwethaf, gyda'r raddfa bresennol yn 2.5%.

2.4 O ganlyniad ail brisio gwerth ardrethol eiddo'r Awdurdod yn 2023/24, mae cynnydd o £22,040 i'r gwaelodlin yng nghyllideb 2025/26.

2.5 Mae newid i strwythyr y Tim Arweinyddiaeth yn dod a swydd Cyfarwyddwr newydd i'r tîm, a chost ychwanegol o £97,000, cafodd ei gymeradwyo yng ngyfarfod yr Awdurdod ar 13eg o Dachwedd 2024.

2.6 Nodwn bydd costau Plas Tan y Bwlch yn parhau i gael eu cyllido o'r cronfeydd yn 2025/26.

## 3. Dadansoddiad o Gyllideb Refeniw 2025/26

3.1 Ar sail y ffigwr grant drafft , mae Atodiadau 2 a 3 yn cynnwys gwybodaeth am gyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2025/26, gan ddadansoddi'r gyllideb refeniw net ar lefel maes gwasanaeth allweddol (Atodiad 2) ac ar sail penawdau goddrychol safonol (Atodiad 3).

3.2 Mae Atodiad 4 yn cynnwys dadansoddiad mwy manwl o'r gyllideb refeniw ar lefel pob adran unigol ym mhob maes gwasanaeth allweddol. Mae'r dadansoddiad a chostau net y gwasanaethau hefyd yn cynnwys amcangyfrifon ar gyfer costau cyfalaf tybiedig.

## 4. Cyllideb Gyfalaf 2025/26

4.1 Amcangyfrifir gwariant cyfalaf gros o £1,443,130 wedi'i ariannu o grantiau cyfalaf, ynghyd â chyfraniadau o gyllideb refeniw a chronfeydd yr Awdurdod . (gweler manylion yn Atodiad 5).

Cyllidir yr £1,443,130 o:

| | £ |
|---|---|
| Grantiau cyfalaf Llywodraeth Cymru | 800,000 |
| Grantiau Eraill | 400,000 |
| Gwaelodlin a chronfeydd yr Awdurdod | 243,130 |
| | **1,443,130** |

## 5. Defnydd o Gronfeydd Wrth Gefn

5.1 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad rhagwelir y bydd cyllideb 2025/26 yn cynnwys gwerth £504,740 o gyfraniad net o gronfeydd yr Awdurdod. Bydd rhan sylweddol o'r

her ariannol yn cael ei gwrdd yn ystod y flwyddyn, gyda unrhyw weddill yn cael ei gyllido o'r cronfeydd. Mae disgwyliad felly bydd y cyfraniad yma yn cynyddu. . Mae amlinelliad isod, ac mae'r manylion llawn yn Atodiadau 6 a 7**.**

Mae'r cyfraniad o £504,740 o gronfeydd yn cynnwys:

**Refeniw** £457,440 (atodiad 6.)

**Cyfalaf** £47,300 (atodiad 7.)

Gweler atodiad 6 & 7 am fanylion llawn

## 6. Lefi ar Awdurdodau Cyfansoddol

6.1 Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a Rheoliadau Ardollau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) sy'n rhagnodi'r dull gosod ardoll, ac mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r ardollau cyn gellir eu hawlio gan yr awdurdodau cyfansoddol perthnasol.

6.2 Dyfarnir yr ardollau ar sail traean o'r Grant Parc Cenedlaethol a dderbynnir gan Llywodraeth Cymru. Rhennir yr ardoll rhwng yr awdurdodau cyfansoddol yn unol â'r "cyfrannau perthnasol" nodir yn Rheoliad 5 a'r Atodlen i'r Ddeddf uchod.

6.3 Mae'r tabl isod yn dangos dosraniad yr ardoll ar sail y ffigwr grant a dderbyniwyd gan Llywodraeth Cymru a'r "cyfrannau perthnasol" o'r Atodlen i'r Ddeddf.

| **2025/26** | **(£)** | Cyfrannau | | **(£)** |
|---|---|---|---|---|
| Grant Llywodraeth | 4,325,806 | | | |
| Cyfanswm yr Ardollau | 1,441,935 | | | |
| **Cyfanswm Cyllido** | **5,767,741** | | | |
| Dosraniad o'r Ardoll : | **Cyngor Gwynedd** | | **77.1%** | **1,111,732** |
| | **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** | | **22.9%** | **330,203** |
| | Cyfanswm | | 100% | 1,632,647 |

6.4 Crynhoir sut ariannir y gyllideb o £8,223,370 (gweler atodiadau 2-4) fel a ganlyn-:

| | |
|---|---|
| Grant Llywodraeth | £4,325,806 |
| Cyfanswm yr Ardollau | £1,441,935 |
| Cyfraniad (net) o Gronfeydd Wrth Gefn | £ 504,740 |
| Incwm grantiau yn y flwyddyn | £1,315,040 |
| Diffyg | £ 635,850 |
| **Cyllideb 2025/26** | **£8,223,370** |

## 7. ARGYMHELLION

**7.1 Cymeradwyo cyllideb refeniw a chyfalaf Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer 2025/26, fel y'i cyflwynir yn yr atodiadau dilynol.**

**7.2 Cymeradwyo'r ardollau ar yr awdurdodau bilio, fel nodir yn rhan 6.3 uchod.**

**Atodiad 1**

| | | | (£) | | (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Cyllideb Sylfaenol 2025/26** | | | | **7,195,246** |
| 2 | **Newid mewn costau staff** | | | | |
| | **Newidiadau gorfodol** | | | | |
| | Effaith Cynydd Yswiriant Cenedlaethol | | 112,388 | | |
| | Cytundeb 2024/25 (£1,290 ar bob pwynt cyflog) | | 178,853 | | |
| | Lleihau Darpariaeth Chwyddiant 2025/26 i 2% | | - 229,986 | | |
| | | | | | 61,255 |
| | **Newidiadau dewisol** | | | | |
| | Mân Addasiadau i Strwythur a Swyddi | | 83,225 | | |
| | | | | | 83,225 |
| 3 | **Newid mewn gwariant** | | | | |
| | **Cynnydd** | | | | |
| | Costau Cynnal Gwahanfur Pen y Pass | | 110,000 | | |
| | Lwfansau Aelodau | | 24,060 | | |
| | Newid mewn Gwerth Ardrethol | | 22,040 | | |
| | Costau Tanysgrifiadau Technoleg Gwybodaeth | | 5,000 | | |
| | Cynydd costau glanhau | | 1,175 | | |
| | | | | | 162,275 |
| | **Gostyngiad** | | | | |
| | Ail-strwythuro Systemau Gwybodaeth | | - 10,000 | | |
| | Cywiriad i ffigwr hanesyddol cyfathrebu | | - 20,000 | | |
| | Addasiad Awyr Dywyll | | - 60,800 | | |
| | | | | | - 90,800 |
| 4 | **Newid mewn incwm** | | | | |
| | **Cynnydd** | | | | |
| | Targed Incwm Maes Parcio Pen y Pass | | - 110,000 | | |
| | Darparieth llety canolfannau gwybodaeth | | 610 | | |
| | Incwm HLF Carneddau | | - 12,312 | | |
| | ERAMMP - prosiect wedi dod I ben | | 17,000 | | |
| | | | | | - 104,702 |
| | Newid i Brosiectau Cyfalaf wedi cyllido o grantiau/ cronfeydd | | 916,871 | | |
| | | | | | 916,871 |
| 5 | **Cyllideb Sylfaenol 2025/26** | | | | **8,223,370** |
| 6 | **Grant Parc Cenedlaethol ac Ardoll 2025/26** | | | | - 5,767,740 |
| 7 | **Cyfraniad Net o gronfeydd wrth gefn a grantiau** | | | | |
| | Cronfa Grantiau Cyfalaf | Carneddau - Data Lidar | | - 18,900 | |
| | Cronfa Grantiau Cyfalaf | Carneddau - Llwybrau | | - 28,400 | |
| | Cronfa Arian Cyfatebol | Carneddau | | - 25,000 | |
| | Cronfa Grantiau Refeniw | Llwybrau Llesiant | | - 40,000 | |
| | Cronfa Prosiectau | Swyddog Pobl Ifanc | | - 41,900 | |
| | Cronfa Prosiectau | Swyddog Eiddo | | - 50,540 | |
| | Cronfa Risgiau Penodol | Cronfeydd i gyllido PTYB am y cyfnod pontio | | - 300,000 | |
| | Grant | Cost cyflogaeth Swyddog Mawndiroedd | | - 33,770 | |
| | Grant | Cost cyflogaeth Swyddog Mawndiroedd | | - 57,270 | |
| | Grant Llywodraeth Cymru | T.C.LL.C Natur a Charbon | | - 500,000 | |
| | Grant Llywodraeth Cymru | Cyflaf Cyffredinol | | - 300,000 | |
| | Tanwariant adran | Swyddog Ymchwil Cynllunio Dros-dro | | - 24,000 | |
| | Grant NRW | Cynllun NPAP | | - 400,000 | |
| | | | | | **- 1,819,780** |
| 8 | **Diffyg** | | | | **635,850** |

**Atodiad 2 / Appendix 2**

**CRYNODEB O'R GYLLIDEB REFENIW 2025/26**
**REVENUE BUDGET SUMMARY 2025/26**

**PRIF FEYSYDD GWASANAETH / KEY SERVICE AREAS**

| ***Gwasanaeth / Service :*** | **Cyllideb Net Net Budget 2025/26 £** | **%** |
|---|---|---|
| Cynllunio a'r Dreftadaeth Ddiwylliannol a Rheolaeth Tir/ Planning and Cultural Heritage and Land Management | **2,488,250** | **33.3** |
| Corfforaethol / Corporate | **4,833,038** | **64.7** |
| Balansau, Arian Wrth Gefn a Darpariaethau / Balances, Reserves & Provisions | **150,000** | **2.0** |
| **Cyllideb Net Gwasanaethau / Net Services Budget** | **7,471,288** | **100.0** |
| | | |
| Llog ar Arian Dros Ben / Interest Earned on Surplus Funds | **-100,000** | |
| Cyllido Gwariant Cyfalaf / Financing of Capital Expenditure | **1,443,130** | |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf / Capital Charges Adjustment | **-591,050** | |
| **Cyfanswm Cyllideb Cyfrif Refeniw / Total Revenue Account Budget** | **8,223,370** | |

| ***Daw'r Arian O / Financed by :-*** | | |
|---|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn / Reserves (prosiectau/projects) | **1,819,780** | **22.1** |
| Cronfeydd wrth gefn / Reserves (diffyg / deficit) | **635,850** | **7.7** |
| | | |
| **Grant y Parc Cenedlaethol / National Park Grant** | **4,325,806** | **52.6** |
| Dyraniad Lefi Rhwng Cynghorau Lleol / Levy Allocation between Constituent Authorities - | | |
| **Cyngor Gwynedd Council** | **1,111,732** | **13.5** |
| **Cyngor Conwy Council** | **330,203** | **4.0** |
| | **8,223,370** | **100.0** |

**Atodiad 3 / Appendix 3**

**CRYNODEB O'R GYLLIDEB REFENIW 2025/26**
**REVENUE BUDGET SUMMARY 2025/26**

**LEFEL ODDRYCHOL / SUBJECTIVE ANALYSIS**

| | Cyllideb Budget 2025/26 £ | % |
|---|---|---|
| Gweithwyr / Employees | **6,114,029** | **59.3** |
| Tir ag Adeiladau / Premises & Grounds | **1,592,825** | **15.4** |
| Cludiant / Transport | **151,940** | **1.5** |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau / Supplies & Services | **1,714,699** | **16.6** |
| Taliadau Cyfalaf / Capital Charges | **591,050** | **5.7** |
| Arian Wrth Gefn a Darpariaethau / Reserves & Provisions | **150,000** | **1.5** |
| **Cyllideb Gros Gwasanaethau / Gross Services Budget** | **10,314,543** | **100.0** |
| | | |
| Incwm / Income | **-2,843,252** | |
| **Cyllideb Net Gwasanaethau / Net Services Budget** | **7,471,291** | |
| | | |
| Llog ar Arian Dros Ben / Interest Earned on Surplus Funds | **-100,000** | |
| Cyllido Gwariant Cyfalaf / Financing of Capital Expenditure | **1,443,130** | |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf / Capital Charges Adjustment | **-591,050** | |
| **Cyfanswm Cyllideb Cyfrif Refeniw / Total Revenue Account Budget** | **8,223,370** | |

**Atodiad 4 / Appendix 4**

## CYLLIDEB REFENIW 2025/26
## REVENUE BUDGET 2025/26

### Cynllunio a Threftadaeth Diwylliannol a Rheolaeth Tir / Planning and Cultural Heritage and Land Management

| | Costau Gweithwyr a Chostau Rhedeg / Employee Costs & Running Expenses | Costau Cyfalaf / Capital Charges | Cyllideb Gros 2025/26 / Gross Budget 2025/26 | Gwerthu, Ffioedd ac Incwm Grant / Sales Fees & Grant Income | **Cyllideb Net 2025/26 / Net Budget 2025/26** |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Archeoleg / Archaeology | 70,205 | - | 70,205 | - | **70,200** |
| Treftadaeth Diwylliannol / Cultural Heritage | 83,530 | - | 83,530 | - | **83,530** |
| Ysgwrn | 125,604 | 45,250 | 170,854 | - 46,800 | **124,050** |
| Cynllun Partneriaeth Tirwedd Carnedau / Carneddau Landscape Partnership Scheme | 596,089 | | 596,089 | - 571,091 | **25,000** |
| Cynllunio/ Planning | 1,004,889 | 3,320 | 1,008,209 | - 206,500 | **801,710** |
| Cadwraeth ac Amaethyddiaeth / Conservation and Agriculture | 533,471 | 10,580 | 544,051 | - 19,220 | **524,830** |
| LIFE-Coedwigoedd Celtaidd / LIFE - Celtic Rainforests | 633,654 | - | 633,654 | - 558,861 | **74,790** |
| Awyr Dywyll / Dark Skies | 60,803 | - | 60,803 | - | **60,800** |
| Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau / Park Management Plan and Partnerships | 516,497 | - | 516,497 | - | **516,500** |
| Canolfannau Gwybodaeth / Information Centres | 393,401 | 5,940 | 399,341 | - 192,500 | **206,840** |
| | **4,018,143** | **65,090** | **4,083,233** | **- 1,594,972** | **2,488,250** |

### Corfforaethol / Corporate

| | Costau Gweithwyr a Chostau Rhedeg / Employee Costs & Running Expenses | Costau Cyfalaf / Capital Charges | Cyllideb Gros 2025/26 / Gross Budget 2025/26 | Gwerthu, Ffioedd ac Incwm Grant / Sales Fees & Grant Income | **Cyllideb Net 2025/26 / Net Budget 2025/26** |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Gweinyddol / Administration | 210,913 | - | 210,913 | - 300 | **210,610** |
| Cyllid / Finance | 241,722 | 1,250 | 242,972 | - | **242,970** |
| Technoleg Gwybodaeth / Information Technology | 365,981 | 24,980 | 390,961 | - | **390,960** |
| Cyfreithiol / Legal | 60,707 | - | 60,707 | - | **60,710** |
| Adnoddau Dynol/ Human Resources | 217,531 | - | 217,531 | - | **217,530** |
| Cyfiethu / Translation | 94,557 | 1,430 | 95,987 | - | **95,990** |
| Pencadlys / Headquarters | 151,177 | 121,690 | 272,867 | - 9,000 | **263,870** |
| Cymorth i Aelodau a'r Awdurdod / Members & Authority Support | 234,136 | - | 234,136 | - | **234,140** |
| Rheoli Corfforaethol / Corporate Management | 774,497 | - | 774,497 | - 1,000 | **773,500** |
| Plas Tan Y Bwlch | 576,736 | 225,540 | 802,276 | - 272,050 | **530,228** |
| Eiddo / Property | 254,716 | - | 254,716 | - | **254,710** |
| Cyfleusterau Ymwelwyr / Visitor Facilities | 260,190 | 67,280 | 327,470 | - 66,160 | **261,310** |
| Meysydd Parcio / Car Parks | 363,660 | 3,090 | 366,750 | - 830,020 | **- 463,270** |
| Llyn Tegid | 33,910 | 2,030 | 35,940 | - 56,120 | **- 20,180** |
| Casglu Ysbwriel / Litter Collection | 15,000 | 4,510 | 19,510 | - | **19,510** |
| Cyfathrebu/ Communication | 307,186 | 7,300 | 314,486 | - 4,130 | **310,360** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Maniffesto Ieuenctid / Young People's Manifesto | 41,899 | - | 41,899 | - | **41,900** |
| Llwybrau Llesiant / Well Being Routes | 40,000 | - | 40,000 | - | **40,000** |
| Mynediad i'r Cyhoedd / Public Access | 119,890 | 4,640 | 124,530 | - 2,000 | **122,530** |
| Wardeiniaid, Gweithwyr Stad a Gwirfoddolwyr / Wardens, Estate Workers and Volunteers | 1,185,942 | 62,220 | 1,248,162 | - 7,500 | **1,240,660** |
| Traffic a Thrafnidiaeth / Traffic and Transport | 5,000 | - | 5,000 | - | **5,000** |
| | **5,555,350** | **525,960** | **6,081,310** | **- 1,248,280** | **4,833,038** |

**<u>Balansau, Arian wrth Gefn a Darpariaethau / Balances, Reserves & Provisions</u>**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth Chwyddiant Cyffredinol / General Prices Inflation - Provision | 30,000 | - | 30,000 | - | **30,000** |
| Darpariaeth Chwyddiant Cyflogau / Payroll Inflation Provision | 120,000 | - | 120,000 | - | **120,000** |
| | **150,000** | **-** | **150,000** | **-** | **150,000** |
| **Cyfanswm Cyllid Gwasanaethau / Total Services Budget** | **9,723,493** | **591,050** | **10,314,543** | **- 2,843,252** | **7,471,288** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llog ar Arian Dros Ben / Interest Earned on Surplus Funds | - | - | - | - 100,000 | **- 100,000** |
| Cyllido Gwariant Cyfalaf / Financing of Capital Spend | 1,443,130 | - | 1,443,130 | - | **1,443,130** |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf / Capital Charges Adjustment | - | - 591,050 | - 591,050 | - | **- 591,050** |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfrif Refeniw / Total Revenue Account Budget** | **11,166,623** | **-** | **11,166,623** | **- 2,943,252** | **8,223,370** |

**Gwariant Cyfalaf 2025/26** **Atodiad 5**

| Disgrifiad | (£) | (£) |
|---|---|---|
| Technoleg Gwybodaeth | 22,340 | |
| Mynediad - Prosiectau | 10,000 | |
| Wardeiniaid - Cerbydau | 14,000 | |
| | | 46,340 |
| Cynlluniau Treftadaeth Diwylliannol | 149,490 | |
| | | 149,490 |
| Carneddau - Llwybrau | 18,900 | |
| | | 18,900 |
| Carneddau - Data Lidar | 28,400 | |
| | | 28,400 |
| TCLC Natur a Carbon | 500,000 | |
| Llwyodraeth Cymru Cyfalaf Cyffredinol | 300,000 | |
| | | 800,000 |
| Grant NPAP | 400,000 | |
| | | 400,000 |
| | | **1,443,130** |

**Defnydd Cronfeydd Wrth Gefn (Refeniw)** **Atodiad 6**

| Prosiect | Cronfa | (£) | (£) |
|---|---|---|---|
| Carneddau | Cronfa Prosiectau | 25,000 | |
| Maniffesto Ieuenctid | Cronfa Prosiectau | 41,900 | |
| Swyddog Eiddo | Cronfa Prosiectau | 50,540 | |
| | | | 117,440 |
| Costau Plas Tan y Bwlch - cyfnod pontio | Cronfa Risgiau Penodol | 300,000 | |
| | | | 300,000 |
| Llwybrau Llesiant | Cronfa Grantiau Refeniw | 40,000 | |
| | | | 40,000 |
| | **Cyfanswm** | | **457,440** |

**Defnydd Cronfeydd Wrth Gefn (Cyfalaf)** **Atodiad 7**

| Prosiect | Cronfa | (£) | (£) |
|---|---|---|---|
| Carneddau - Data Lidar | Cronfa Grantiau Cyfalaf | 18,900 | |
| Carneddau - Llwybrau | Cronfa Grantiau Cyfalaf | 28,400 | |
| | | | 47,300 |
| | | | **47,300** |

**EITEM RHIF 11**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 5 Chwefror 2025 |
| **TEITL** | **STRATEGAETH CYFALAF 2025/26** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Swyddog Cyllid |
| **PWRPAS** | Cymeradwyo’r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2025/26 ac argymhellion y Prif Swyddog Cyllid yn gysylltiedig â’r Cod Darbodus. |

## 1 CEFNDIR

1.1 Mae adroddiad y Strategaeth Gyfalaf yn rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheolaeth trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau'r Parc Cenedlaethol ynghyd â throsolwg o sut y caiff risg cysylltiedig ei reoli a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

1.2 Mae'r Strategaeth yn cwmpasu:-

- Gwariant Cyfalaf a Chyllido,
- Rheolaeth Trysorlys, gan gynnwys statws diddyled,
- Buddsoddiadau ar gyfer Dibenion Gwasanaeth,
- Gweithgareddau Masnachol,
- Rhwymedigaethau,
- Goblygiadau Cyllideb Refeniw, a
- Gwybodaeth a Sgiliau

## 2 GWARIANT CYFALAF A CHYLLIDO

2.1 Gwariant cyfalaf yw ble mae’r Awdurdod yn gwario arian ar asedau, megis eiddo neu gerbydau a ddefnyddir ar gyfer mwy na blwyddyn. Ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol mae hyn yn cynnwys gwariant ar asedau sy’n eiddo i gyrff eraill, a grantiau i gyrff eraill sy’n eu galluogi i adnewyddu adeiladau rhestredig. Mae gan yr Awdurdod rywfaint o ddisgresiwn cyfyngedig ar yr hyn sy’n cyfrif fel gwariant cyfalaf, er enghraifft, nid yw asedau sy’n costio llai na £10,000 yn cael eu cyfalafu ac fe’u dangosir yn erbyn refeniw yn ystod y flwyddyn.

2.2 Yn 2025/26, mae'r Awdurdod yn cynllunio gwariant cyfalaf o £1,443k fel y crynhoir isod:

*Tabl 1: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf mewn £ miloedd*

| | **2023/24 Gwir (£'000)** | **2024/25 Rhagolwg (£'000)** | **2025/26 Cyllideb (£'000)** | **2026/27 Cyllideb (£'000)** | **2027/28 Cyllideb (£'000)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol (Gwasanaethau Corfforaethol) | 548 | *638* | 36 | 36 | 36 |
| Cronfa Gyffredinol (Allanol i'r Awdurdod) | 1,562 | *1,467* | 1,406 | 1,739 | 939 |
| Buddsoddiadau Cyfalaf | 0 | *0* | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **2,110** | ***2,105*** | **1,443** | **1,776** | **976** |

2.3 Mae prif brosiectau cyfalaf y gronfa gyffredinol ar gyfer 2025/26 yn cynnwys gwerth £847,300 o gynlluniau cyfalaf a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ffigwr yma yn cynnwys £500,000 ar gyfer cynlluniau Tiroedd Cynaladwy, lleoedd Cynaladwy (TCLlC), yn ogystal a grant cyfalaf cyffredinol £300,000 sydd eto i'w ddyranu. Hefyd wedi ei gynnwys yn y ffigwr uchod mae grant 3 mlynedd Cynllun Cenedlaethol Mawndiroedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru sydd werth £400,000. Mae'r prif gyfraniad unigol gan yr Awdurdod ar gyfer cynlluniau Treftadaeth Ddiwylliannol, yn ogystal a'r cyllideb blynyddol ar gerbydau wardeiniaid, offer TG a prosiectau mynediad.

2.4 **LLYWODRAETHU**:

Mae'r dyraniad o'r gyllideb refeniw flynyddol yn sefyll, ac yn arfer yn cael ei ategu gan gyllidebau sydd heb eu gwario a gariwyd drosodd o'r flwyddyn ariannol flaenorol. O ystyried yr her ariannol sydd yn gwynebu yr awdurdod, mae'n anhebygol bydd unrhyw arian i'w gario drosodd ar gyfer pwrpasau cyfalaf dros y dair blynedd nesaf.

2.5 Rhaid ariannu'r holl wariant cyfalaf, naill ai o –

- ffynonellau allanol (grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau eraill),
- adnoddau'r Awdurdod ei hun (refeniw, cronfeydd wrth gefn a derbyniadau cyfalaf) neu
- ddyled (benthyca, prydlesu a Menter Cyllid Preifat).

Mae dull cyllido arfaethedig y gwariant uchod fel a ganlyn:

*Tabl 2: Arian cyfalaf mewn £ miloedd*

| | **2023/24 Gwir (£'000)** | **2024/25 cyllideb (£'000)** | **2025/26 cyllideb (£'000)** | **2026/27 cyllideb (£'000)** | **2027/28 cyllideb (£'000)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffynonellau allanol | 1,593 | *1,218* | 1,247 | 1,580 | 780 |
| Adnoddau ein hunain | 517 | *886* | 196 | 196 | 196 |
| Dyled | 0 | | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **2,110** | ***2,105*** | **1,443** | **1,775** | **976** |

Mae'r "ffynonellau allanol" a nodir yn y tabl uchod yn cynrychioli grantiau a chyfraniadau. Mae'r Awdurdod yn "ddi-dyled" ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw fwriad o fynd i ddyled yn 2025/26.

2.6 Mae gan yr Awdurdod gronfa derbyniadau cyfalaf wrth gefn ar hyn o bryd,rhagwelir bydd balans y gronfa yn £163,790 ar 31/3/2025.

2.7 Mae gofyniad cyllido cyfalaf yr Awdurdod yn 'sero' ac fe ddisgwylir i'r Awdurdod barhau yn ddiddyled yn 2025/26.

2.8 **RHEOLI ASEDAU**:

Er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn parhau i fod o ddefnydd hirdymor, mae gan yr Awdurdod gynllun rheoli asedau ar waith ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd i bennu lefel yr ymrwymiad ariannol sydd ei angen dros y blynyddoedd i ddod.

2.9 **GWAREDU ASEDAU**:

Bydd unrhyw benderfyniad ynglyn a syt i ymdrin a'r ennillion yn ymwneud a garedu asedau yn cael ei roi o flaen yr Awdurdod. Fel arall, mae'r enillion o waredu cerbydau a pheiriannau trwm wedi'u neilltuo ar gyfer ariannu rhai yn eu lle (i'w hamnewid).

## 3 RHEOLAETH TRYSORLYS

3.1 Mae Rheolaeth Trysorlys yn ymwneud â chadw arian digonol ond nid gormod o arian ar gael i ddiwallu anghenion gwario'r Awdurdod, wrth reoli'r risgiau dan sylw. Buddsoddir arian parod hyd nes y bydd ei angen, ac fe ellir diwallu prinder trwy fenthyca, er mwyn osgoi balansau gormodol neu orddrafftiau yn y cyfrif cyfredol yn y banc.

3.2 **STRATEGAETH FENTHYCA**:

Cytunwyd wrth drafod Polisi'r Awdurdod ar Fenthyca yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau (9/11/2016) y dylai unrhyw fenthyca yn y dyfodol fod ar gyfer prosiectau penodol sydd ag achos busnes cadarn. Yn absenoldeb cynnig i'r awdurdod ei hun ariannu cynllun cyfalaf penodol, **bydd yr Awdurdod, yn dechrau ar y flwyddyn ariannol 2025/26 heb unrhyw ddyled ac at ddibenion rheolaeth trysorlys ystyrir fod yr Awdurdod yn ddi-ddyled.**

3.3 **CYFYNGIAD BENTHYCA FFORDDIADWY:**

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod osod cyfyngiad ar fenthyca fforddiadwy (a elwir hefyd yn derfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllawiau statudol, gosodir "ffin weithredol" is hefyd fel lefel rhybudd petai'r ddyled yn agosáu at y cyfyngiad / terfyn.

*Tabl 3: Dangosydd Darbodus: Cyfyngiad awdurdodedig a ffîn weithredol mewn £ miloedd*

| | ***Cyfyngiad* 2023/24** | ***Cyfyngiad* 2024/25** | ***Cyfyngiad* 2025/26** | ***Cyfyngiad* 2026/27** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfyngiad awdurdodedig - benthyca | 500 | 500 | 500 | 500 |
| Cyfyngiad awdurdodedig - PFI a phrydlesi | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfyngiad awdurdodedig - cyfanswm dyled allanol | 500 | 500 | 500 | 500 |
| Ffin weithredol - benthyca | 100 | 100 | 100 | 100 |
| Ffin weithredol - PFI a phrydlesi | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ffin weithredol - cyfanswm dyled allanol | 100 | 100 | 100 | 100 |

Ni argymhellir unrhyw ostyngiad i'r 'cyfyngiad benthyca awdurdodedig' a'r 'ffin weithredol', er mwyn cadw hyblygrwydd, yng nghyd-destun ansicrwydd pwysedd chwyddiant a'r sefyllfa ariannol anodd mae'r Awdurdod yn ei gwynebu.

3.4 **STRATEGAETH FUDDSODDI**:

Mae buddsoddiadau'r Trysorlys yn codi o dderbyn arian parod cyn iddo gael ei dalu allan eto. Yn gyffredinol, ni ystyrir bod buddsoddiadau a wneir am resymau gwasanaeth yn rhan o reoli'r trysorlys.

3.5 Polisi'r Awdurdod ar fuddsoddiadau trysorlys yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros enillion buddsoddi; hynny yw canolbwyntio ar leihau risg, yn hytrach na uchafu'r llog a dderbynnir. Caiff arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y tymor byr ei fuddsoddi yn ddiogel, er enghraifft gyda'r Llywodraeth,

awdurdodau lleol eraill, neu fanciau dethol o ansawdd uchel, i leihau"r perygl o golli"r prifswm. Nid yw'r Awdurdod, ar hyn o bryd, yn dal buddsoddiadau am delerau hirach (byddai'r rhain yn cael eu buddsoddi'n ehangach, gan gynnwys bondiau, cyfranddaliadau ac eiddo, i gydbwyso'r risg o golled yn erbyn y risg o dderbyn enillion is na chwyddiant).

3.6 Bydd llif arian dydd i ddydd yr Awdurdod yn cael ei fonitro'n ofalus trwy gydol y flwyddyn. Bydd unrhyw arian dros ben yn cael ei adneuo gydag un neu fwy o'r sefydliadau a ganlyn:

- Bank of Scotland
- HSBC
- Santander DU
- Banc Barclays
- Banc Lloyds
- Cymdeithas Adeiladu Nationwide
- Swyddfa Rheoli Dyledion y D.U. ("DMO")

3.7 Bydd symiau a fuddsoddir yn dibynnu ar y statws credyd presennol a'r lleiafswm balansau gofynnol, tra hefyd yn cynnal balansau digonol i fodloni gofynion llif arian yr Awdurdod. Mae'r prif bwyslais ar ddiogelu arian yr Awdurdod ac i'r perwyl hwn mae swyddogion cyllid yn trefnu bod yna ledaeniad mor ymarferol â phosibl rhwng y sefydliadau cymeradwy (heblaw am Barclays).

3.8 Ar adeg ysgrifennu, mae gan y banciau a nodir uchod, statws credyd priodol (statws credyd tymor byr F1 Fitch neu well am ddal adneuon tymor byr).

3.9 Gall banc Barclays, yng nghyswllt cyfrif cyfredol yr Awdurdod, fod yn eithriad i'r gofyniad statws credyd, lle (os bydd statws credyd y banc yn disgyn) gall yr Awdurdod barhau i adneuo arian sy'n weddill dros nos.

Caiff taliadau cerdyn credyd neu ddebyd am ffioedd parcio a dderbynnir drwy beiriannau talu ac arddangos eu prosesu trwy'r Allied Irish Bank, sydd â graddfa statws credyd F2. Mae'r risg yn cael ei liniaru drwy drosglwyddo i Barclays o fewn 3 diwrnod gwaith.

3.10 Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn adneuo arian â chymdeithasau adeiladu heb eu graddio, e.e. Cymdeithas Adeiladu Nationwide, lle mae dadansoddiad credyd annibynnol yn dangos eu bod yn ddigon teilwng o gredyd.

3.11 Petai statws credyd y sefydliadau ariannol cymeradwy yn disgyn yn gyffredinol, bydd yr Awdurdod yn ystyried adneuo arian â Swyddfa Rheoli Dyledion y D.U. ("DMO"). Byddai hynny'n sicrhau diogelwch, ond dim ond ychydig iawn o log fyddai'n dderbyniadwy.

3.12 Mae buddsoddiadau'r Awdurdod ar gyfer dibenion rheolaeth trysorlys yn unig h.y. nid oes eiddo yn cael ei ddal fel buddsoddiad a dim buddsoddiad i gefnogi gwasanaethau.

*Tabl 4: Buddsoddiadau rheolaeth Trysorlys mewn £ miloedd*

| | 31.3.2024 Gwir (£'000) | 31.3.2025 cyllideb (£'000) | 31.3.2026 cyllideb (£'000) | 31.3.2027 cyllideb (£'000) | 31.3.2028 cyllideb (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau tymor agos | 12,336 | 11,150 | 9,448 | 7,786 | 6,724 |
| Buddsoddiadau tymor hwy | | | | | |
| **CYFANSWM** | **12,336** | **11,150** | **9,448** | **7,786** | **6,724** |

Mae'r tabl uchod yn adlewyrchu'r ffaith bod swm sylweddol o grantiau "un-tro" wedi'u talu i'r Awdurdod yn ystod y blynyddoedd diweddar, yn ogystal ar angen i ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn yn ystod y cyfnod heriol yma.

3.13 **LLYWODRAETHU:**
Mae penderfyniadau ar fuddsoddiadau rheolaeth trysorlys a benthyca yn cael eu gwneud bob dydd, ac felly'n cael eu dirprwyo i'r Pennaeth Cyllid a'r staff Cyllid, fel y'u cynghorir gan y Prif Swyddog Cyllid, lle bo angen. Rhaid i'r Pennaeth Cyllid a'r staff Cyllid weithredu yn unol â Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ym mis Chwefror bob blwyddyn. Cyflwynir adroddiadau ar weithgarwch rheolaeth trysorlys i'r Awdurdod fel a ganlyn:

- Cyflwynir adroddiadau ar weithgarwch rheolaeth trysorlys i'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol (yn ysgrifenedig neu ar lafar fel y bernir sy'n briodol), ac ar ol y flwyddyn (yn ysgrifenedig).

## 4 BUDDSODDIADAU AR GYFER DIBENION GWASANAETH

Nid yw'r Awdurdod yn ymgymryd â buddsoddiadau o'r fath, yn hytrach, mae'n darparu cymorth trwy gyfrwng grantiau trwy e.e. Cronfa Gomisiynu, cronfa grantiau bach, cyllideb adeiladau rhestredig.

## 5 GWEITHGAREDDAU MASNACHOL

5.1 Ar hyn o bryd nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau mewn eiddo er budd ariannol yn unig.

5.2 Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau masnachol eraill, megis gwerthiant yn y tair Canolfan Groeso ac yn eiddo Yr Ysgwrn. Mae'r enillion yn cyfrannu at gostau rhedeg y gwasanaethau unigol. Yn 2023/24 cynhyrchwyd £2,434k o ffioedd, taliadau a godir ac incwm arall sy'n seiliedig ar wasanaeth, ac mae prif gydrannau'r rhain fel a ganlyn:

- *Incwm ffioedd y Maes Parcio* *£1,529k*
- *Ffioedd Cynllunio* *£247k*
- *Ffioedd Canolfannau Gwybodaeth* *£331k*
- *Rhent* *£104k*

5.3 Rheolir y risgiau dan sylw trwy gyfrwng bwrdd rheoli'r Ysgwrn ac adroddiadau monitro cyllideb i aelodau'r Awdurdod. Mae Yr Ysgwrn hefyd wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

## 6 ATEBOLRWYDD

6.1 Mae'r Awdurdod wedi derbyn symiau sylweddol o grantiau refeniw a chyfalaf "un-tro" a dalwyd ymlaen llaw mewn blynyddoedd diweddar - trosglwyddwyd y rhan fwyaf o'r rhain i'r cronfeydd refeniw a chyfalaf wrth gefn, tra bo rhai (megis grant LIFE) wedi eu cofnodi o dan gredydwyr.

6.2 Mae'r Awdurdod yn adolygu’r cronfeydd wrth gefn yn flynyddol.

6.3 **LLYWODRAETHU**: Adroddir ar sefyllfa'r gronfa bensiwn yn flynyddol i'r aelodau fel rhan o'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol. Mae'r Pennaeth Cyllid yn adolygu'r sefyllfa o ran defnyddio grantiau a chynnydd yn erbyn proffil fel rhan o'r broses fonitro cyllideb sy'n bwydo i mewn i adroddiadau i'r aelodau bob mis Medi, Rhagfyr a Mawrth, ac adroddiad alldro'r Awdurdod ym mis Mehefin.

## 7 GOBLYGIADAU’R GYLLIDEB REFENIW:

7.1 Gan fod yr Awdurdod yn ddi-ddyled, nid oes unrhyw daliadau llog dyled i'r gyllideb refeniw.

7.2 **CYNALIADWYEDD:**

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn fodlon bod y rhaglen gyfalaf arfaethedig yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy oherwydd nid oes angen ei ariannu gan ddyledion allanol.

## 8 GWYBODAETH A SGILIAU

8.1 Mae'r Awdurdod yn cyflogi staff cymwys a phrofiadol proffesiynol mewn swyddi uwch sy'n gyfrifol am wneud gwariant cyfalaf, benthyca a phenderfyniadau buddsoddi.

8.2 Lle nad oes gan staff yr Awdurdod y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen, mae'n bosibl defnyddio ymgynghorwyr allanol ac ymgynghorwyr sy'n arbenigwyr yn eu maes. Ar hyn o bryd, mae gweithrediadau Rheolaeth Trysorlys yr Awdurdod yn gymharol syml, felly nid oes angen arbenigedd allanol, ac eithrio ymgynghori fel bo'r angen gyda Phrif Swyddog Cyllid yr Awdurdod.

## 9 ARGYMHELLION

**9.1 Noder nad oes bwriad i fenthyca arian at ddibenion cyfalaf, ond mae'r cyfyngiadau isod yn cael eu hargymell ar lefel ddarbodus fel mesur rhagofalus rhag ofn bydd argyfwng neu fod angen gwariant ar fyr rybudd.**

**9.2 Cymeradwyo dim newid yn:**

**(i) y Cyfyngiad Benthyca Awdurdodedig o £500,000 ar gyfer 2025/26, a Ffin Weithredol o £100,000, a**

**(ii) dim cyfyngiad ar gyfran y llog sy'n daladwy ar gyfradd amrywiol.**

**9.3 Mabwysiadu'r Strategaeth Benthyca Cyfalaf ar gyfer 2025/26 fel yr amlinellir ym mharagraff 3.3 yr adroddiad, a nodi'r cynnwys sy'n ymwneud â'r Cod Darbodus (gweler y tablau o dan baragraffau 2.2, 3.3 a 7.1).**

**9.4 Mabwysiadu'r Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2025/26 fel yr amlinellir ym mharagraffau 3.5-3.14 yr adroddiad, a nodi'r sefydliadau a restrir ym mharagraff 3.7.**

**COFNODION**
**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU**
DYDD MERCHER 27ain o DACHWEDD 2024
Swyddfa’r Parc Cenedlaethol

***YN BRESENNOL:***

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Elfed Powell Roberts (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Jo Nuttall, Nia Owen;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Tim Jones, Naomi Luhde-Thompson;

**Swyddogion**
G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Bethan Hughes, Nia Murray, Awel Gruffydd, Gareth Hughes, Sian Owen, Eifion Jones.

**Hefyd yn bresennol**
Rachel Freitag, Rheolwr Archwilio (eitem 10 yn unig)

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion ac y byddai’r recordiad ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau’r Cadeirydd**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Louise Hughes, June Jones, John Pughe Roberts, Ifor Glyn Lloyd, a gan Brian Angell a Delyth Lloyd.

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Nia Owen i’w chyfarfod cyntaf o’r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

2. **Datgan Diddordeb**

   Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb yn unrhyw eitem gan aelod na swyddog.

3. **Cofnodion**

   *Mabwysiadwyd* cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar y 10fed o Orffennaf 2024 ac ar yr 11eg o Fedi 2024, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Taflen Weithredu**

*Cyflwynwyd* y Daflen Weithredu gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Dywedodd y dylid dileu eitem 9, sef *Panel Craffu – Cyfrif Carbon Eryri*, o'r daflen gan fod *Strategaeth Carbon Isel Drafft* wedi ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ar 12 Mehefin 2024.

***Argymhellwyd*:** – tynnu eitem 9 a chadw'r ddwy eitem arall fel ag yr oeddynt.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad**.**

5. **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

*Cyflwynwyd* adroddiad ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a oedd yn datgan:

- y camau yr oedd yr Awdurdod wedi'u cymryd i bennu a chasglu'r wybodaeth berthnasol;
- sut roedd yr Awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth honno wrth ddiwallu tri nod y ddyletswydd gyffredinol;
- y cynnydd a wnaethpwyd tuag at gyflawni pob un o amcanion cydraddoldeb yr Awdurdod.

***Argymhellwyd*:** – cymeradwyo cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-24 ar wefan yr Awdurdod.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad**.**

6. **Canolfannau Croeso – Adroddiad Blynyddol**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy ar Ganolfannau Croeso'r Parc yn Aberdyfi, Beddgelert a Betws y Coed.

*Adroddwyd*:

- bod trosiant y tair canolfan wedi cynyddu dros y flwyddyn
- bod nifer yr ymwelwyr wedi aros yn sefydlog yn Aberdyfi a Betws y Coed, ond wedi gostwng ychydig ym Meddgelert
- canolfan Aberdyfi wedi llwyddo cael cyflenwad llawn o staff ar gyfer y tymor llawn.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod gwaith eithaf pellgyrhaeddol wedi ei fwriadu ar gyfer canolfyn Betws y Coed

***Argymhellwyd*:** – trafod cynnwys yr adroddiad ac unrhyw gamau a ddylid eu cymryd wrth edrych ymlaen at 2024-2025.

***Derbyniwyd*** yr adroddiad**.**

7. **Rhaglen Waith Corfforaethol**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar y Rhaglen Waith Corfforaethol a oedd yn cynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn y chwarter cyntaf a'r ail o 2024 (Ebrill - Medi) i gyflawni'r wahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Gwelliant yr Awdurdod.

***Argymhellwyd:*** – archwilio a thrafod y Rhaglen Waith Corfforaethol

***Penderfynwyd*** derbyn y Rhaglen Waith Corfforaethol.

8. **Diweddariad Grantiau Ariannu Allanol**

*Cyflwynwyd* diweddariad ar y prosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod a chadarnhad blaenoriaethau ar gyfer cymorth grant allanol yn y dyfodol gan y Prif Weithredwr.

***Argymhellwyd:*** –

(i) Nodi'r prosiectau arian cyfalaf 2022-2025;
(ii) Nodi'r ymrwymiad i brosiectau Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy;
(iii) Cadarnhau meysydd blaenoriaeth ar gyfer bidiau yn y dyfodol;
(iv) Nodi'r Siart Llif;
(v) Nodi cynnydd ar brosiectau byw.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad.

9. **Adroddiad Iechyd a Diogelwch**

*Cyflwynwyd* adroddiad ar reolaeth iechyd a diogelwch o fewn yr Awdurdod gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch.

*Adroddwyd* bod:

- Swyddog Iechyd a Diogelwch wedi ei benodi ym mis Ionawr 2024;
- systemau digidol wedi eu cyflwyno i gofnodi salwch a bod hyn yn:
  - galluogi nodi'r rheswm am y salwch yn ogystal â'r ffaith,
  - esbonio, o bosib, y cynnydd yn nifer yr adroddiadau damweiniau ayyb;
- cynnydd sylweddol wedi ei weld yn absenoldebau oherwydd straen, pryder ac iselder ysbryd (roedd cyfradd yr absenoldebau yn debyg i sefydliadau tebyg eraill);
- lles yn ffocws allweddol, gyda phwyslais ar iechyd meddwl; bod mynediad i gwnsela ar yr ap Wellness 360 ar gael i bob aelod o staff, a bod dau aelod o staff wedi eu hyfforddi'n Gymhorthydd Cyntaf Iechyd Meddwl (*Mental Health First-Aider*) ac yn Bencampwr Llesiant (*Wellness Champion*).

***Argymhellwyd:*** – nodi'r adroddiad.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad**.**

10. **Cynllun Archwilio Ariannol 2022.23**

*Cyflwynwyd* cynllun ar gyfer archwiliad cyfrifon 2022-23 a rhaglen waith archwilio perfformiad 2023 a 2024 gan y Rheolwr Archwilio Allanol*.*

*Adroddwyd*

- bod y cynllun hwn ar gyfer archwiliad cyfrifon 2022-23 am fod archwiliad cyfrifon 2021-22 wedi ei oedi'n sylweddol oherwydd materion yn ymwneud â phrisio eiddo, peiriannau ac offer;
- mai dyna'r rheswm hefyd fod y cynllun yn nodi rhaglen waith archwilio perfformiad 2023 a 2024;
- y risgiau datganiad ariannol a'r meysydd ffocws eraill;
- mai'r bwriad oedd cwblhau'r archwiliad cyn y Nadolig a chyflwyno'r adroddiad yn Chwefror 2025

***Argymhellwyd:*** – derbyn y cynllun.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad**.**

11. **Cyflwyno cofnodion y Pwyllgor Safonau er gwybodaeth**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar yr 20fed o Fedi 2024.

***Nodwyd*** y cofnodion.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10:55**

**GWEITHGOR AELODAU**
**PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
Dydd Mercher 4ydd Rhagfyr 2024

***YN BRESENNOL:***

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Jo Nuttall, Nia Owen;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Brian Angell, Naomi Luhde-Thompson, Delyth Lloyd;

**Swyddogion**
Jonathan Cawley, Iwan Jones, Elliw Owen, Geraint Evans, Bethan Hughes, Rhys Owen, Rhydian Roberts, Angela Jones, Eifion Jones;

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei gofnodi i gynorthwyo gwirio'r cofnodion.

Yn absenoldeb Cadeirydd y Gweithgor, y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Edgar Wyn Owen.

1. **Ymddiheuriadau**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd a Mr Tim Jones.

2. **Datgan Budd**

   Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb yn unrhyw eitem gan aelod na swyddog.

3. **Cofnodion**

   *Cyflwynwyd* cofnodion cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar yr 16eg o Hydref 2024.

   *Codwyd* nad oedd cofnodion y cyfarfod yn cofnodi presenoldeb y Cynghorydd Einir Wyn Williams er ei bod yn bresennol yn y cyfarfod. Codwyd hefyd nad oedd cofnodion cyfarfod y Gweithgor Aelodau blaenorol, a gynhaliwyd ar y 4ydd o Fedi, yn cofnodi ei phresenoldeb yn y cyfarfod hwnnw chwaith.

***Penderfynwyd:***

(i) nodi presenoldeb yn Cynghorydd Einir Wyn Williams yng nghyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar y 4ydd o Fedi ond nad oedd modd cywiro'r cofnodion am eu bod eisoes wedi eu mabwysiadu;

(ii) cywiro'n ffurfiol cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 16eg o Hydref i gofnodi presenoldeb y Cynghorydd Einir Wyn Williams yn y cyfarfod.

***Mabwysiadwyd*** y cofnodion yn unol a'r uchod, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Adroddiad Ymgynghori yn dilyn ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyflwyno Hysbysiad Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer ardal Parc Cenedlaethol Eryri**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Polisi Cynllunio ar sylwadau a dderbyniwyd yn ystod cyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyflwyno Hysbysiad Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ardal Parc Cenedlaethol Eryri

*Adroddwyd*:

- bod yr hysbysiad wedi ei gyhoeddi ar Ebrill 12fed a bod y cyfnod ymgysylltu wedi para 12 wythnos;
- bod 357 o ymatebion wedi eu derbyn yn ystod y cyfnod hwnnw;
- bod ystod o ymatebion wedi'u derbyn gyda phryderon wedi'u codi am effaith negyddol ar brisiau tai, y farchnad dai, cyllid personol, twristiaeth a'r economi, a bod yr adroddiad yn ateb y pryderon yma'n fanwl;
- bod mater prisiau tai a morgeisi wedi ei drafod gydag awdurdodau cynllunio lleol eraill sydd wedi defnyddio mecanweithiau tebyg i gyfyngu ar anheddau, ac ni welwyd unrhyw effaith sylweddol ar brisiau tai nac ar forgeisi yn yr ardaloedd hynny;
- bod sylwadau eraill yn gyffredinol gefnogol i'r bwriad, yn ystyried bod angen rheoli nifer y tai haf ac yn cydnabod yr angen i sicrhau cymunedau cynaliadwy a hyfyw, a chynnal a gwarchod yr Iaith Gymraeg;
- mai'r cam nesaf fyddai cyflwyno adroddiad ar yr ymatebion a dderbyniwyd yn dilyn y cyfnod ymgysylltu i Bwyllgor Cynllunio a Mynediad yr Awdurdod ym mis Ionawr 2025, i'w ystyried gan Aelodau'r Awdurdod er mwyn gwneud y penderfyniad i gadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 ai peidio.

*Trafodwyd* yr adroddiad, a gwnaethpwyd y sylwadau canlynol*:*

- Llongyfarchwyd yr adran ar fanyldeb a thrylwyredd yr adroddiad.
- Nad oedd prisiau tai yn ystyriaeth ym materion cynllunio; cyfundrefn er lles cyhoeddus ydoedd.
- Dylid pwyso ar Lywodraeth Cymru am gymorth ariannol i weithredu hyn.

***Argymhellwyd***: – bod Aelodau'r Awdurdod yn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn ymateb i'r sylwadau

***Penderfynwyd*** derbyn yr argymhelliad

5. **'Amlinelliad' Drafft O Ganllawiau Cynllunio Atodol Ar Newid Defnydd Prif Gartref, Ail Gartref A Llety Gwyliau Tymor Byr**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Polisi Cynllunio ar 'Amlinelliad' Drafft o Ganllawiau Cynllunio Atodol ar Newid Defnydd Prif Gartref, Ail Gartref a Llety Gwyliau Tymor Byr

*Adroddwyd:*

- bod swyddogion wedi paratoi amlinelliad drafft o'r Canllawiau Cynllunio Atodol i roi arweiniad pellach ar sut i gymhwyso polisïau Cynllun Datblygu Lleol Eryri wrth ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer Newid Defnydd Prif Gartref, Ail Gartref a Llety Gwyliau Tymor Byr;
- bod trothwy o 15% wedi ei gynnig fel y pwynt lle'r ystyrid bod angen rheoli niferoedd ail gartrefi (C5) a llety gosod tymor byr (C6) o fewn ardal Cyngor Cymuned/Tref; byddai tybiaeth yn erbyn ceisiadau ar gyfer newid defnydd o brif breswylfa i lety gosod tymor byr ac ail gartrefi a cheisiadau defnydd cymysg ar gyfer ail gartrefi neu lety gosod tymor byr pan fyddai'r cyfuniad o ail gartrefi (C5) a llety gosod tymor byr (C6) o fewn ardal y Cyngor Cymuned/Tref yn cyrraedd 15% neu fwy o gyfanswm y stoc dai;
- y byddai fersiwn lawn o'r testun yn cael ei drafftio cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, unwaith y byddai adborth cychwynnol wedi'i ddarparu gan yr Aelodau;

*Trafodwyd* yr adroddiad, a gwnaethpwyd y sylwadau canlynol*:*

- Byddai'n rhaid gallu amddiffyn a chyfiawnhau'r ffigwr o 15% mewn modd cadarn petai'n cael ei herio;
- Bod Cyngor Gwynedd wedi ennill achos llys ar drothwy o 15%;
- Gallai cael trothwy o 15% hybu trosiadau mewn ardaloedd sydd yn is na hynny ar hyn o bryd;
- Byddai unrhyw drothwy a fyddai wedi ei osod yn cael ei adolygu'n flynyddol;
- 4% oedd cyfartaledd y nifer o ail dai ar draws y wlad, a bod trothwy o 15% felly'n rhesymol.

***Argymhellwyd*****:** – bod Aelodau'r Awdurdod yn trafod cynnwys y Canllaw Cynllunio Atodol amlinellol drafft: Newid Defnydd Prif Gartref, Ail Gartref a Llety Gwyliau Tymor Byr. Yn dilyn unrhyw newidiadau, bydd fersiwn ddrafft o'r CCA yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad i'w chymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

***Penderfynwyd*** derbyn yr argymhelliad

6. **Strategaeth Coed a Choedlannau**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth ar y Strategaeth Coed a Choedlannau.

*Adroddwyd:*

- mai dyma oedd fersiwn ddrafft olaf y Strategaeth cyn iddi gael ei chylchu'n gyhoeddus am sylwadau;
- bod y targed o gynyddu'r canran gorchudd coed i 30% yn heriol, ond bod y swyddogion yn hyderus y gellid cyrraedd y nod hwnnw;
- mai'r bwriad nesaf oedd cynnal sesiynau un-i-un, *drop-ins*, cyfarfodydd arlein a chymunedol i glywed ymatebion pobl leol i'r strategaeth.

*Trafodwyd* yr adroddiad, a gwnaethpwyd y sylwadau canlynol*:*

- Dylid hybu'r diwydiant coed lleol ar gyfer adeiladwaith
- Byddai dangos y newidiadau mawr yng ngorchudd coed a fu dros ganrifoedd mewn modd gweledol yn y ddogfen yn ffordd dda o ddangos yr angen am orchudd coed sylweddol
- Cafwyd cymorth a chyd-weithio da gya'r Woodland Trust wrth greu'r strategaeth.

***Argymhellwyd*****:** – nodi a thrafod fersiwn ddiweddaraf y strategaeth cyn ei rhyddhau fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

***Penderfynwyd*** rhyddhau'r Strategaeth fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

7. **Adroddiad ar Gyflwr y Parc 2024**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Partneriaethau ar Gyflwr y Parc.

*Adroddwyd*

- bod yr Adroddiad ar Gyflwr y Parc yn gasgliad o'r data mwyaf diweddar ar draws y Dirwedd Ddynodedig a ddefnyddir i ddadansoddi a mesur y sefyllfa bresennol yn Eryri;
- ei fod wedi ei gyflwyno ar ffurf dogfen pdf yn y gorffennol, ond bod meicro-wefan wedi ei greu erbyn hyn er mwyn gallu diweddaru'r wybodaeth yn gynt, a byddai hyn ar gael yn gyhoeddus.

*Trafodwyd* yr adroddiad, a gwnaethpwyd y sylwadau canlynol:

- Bod yr adroddiad yn cynnwys llawer o negeseuon da a chadarnhaol, a bod yn rhaid eu rhoi ar led.

***Argymhellwyd*****:** –

(i) bod yr Aelodau'n rhoi adborth ar negeseuon craidd yr adroddiad ar Gyflwr y Parc;

(ii) bod yr Aelodau'n cytuno i symud ymlaen i gynhyrchu'r adroddiad ar Gyflwr y Parc fel sail i'r adolygiad o Gynllun Eryri yn 2025.

***Penderfynwyd*** derbyn yr Argymhelliad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12:00**